YR EGLWYS YNG NGHYMRU | THE CHURCH IN WALES

CORFF CYNRYCHIOLWYR YR EGLWYS YNG NGHYMRU
THE REPRESENTATIVE BODY OF THE CHURCH IN WALES

# FFILMIO MEWN EGLWYSI NEU FYNWENTYDD EGLWYS

O bryd i'w gilydd bydd cwmnïau ffilm neu deledu yn gwneud cais i ffilmio mewn eiddo sy'n perthyn i'r eglwys. Gall hyn fod yn gyfle defnyddiol i hyrwyddo'r eglwys ond gall hefyd fod yn ffynhonnell ddefnyddiol o incwm. Dylai'r holl waith ffilmio gael ei gwmpasu gan drwydded briodol a roddir gan Gorff y Cynrychiolwyr; bydd y drwydded hon yn cynnwys pob agwedd angenrheidiol ar ddiogelu i'r Eglwys mewn cysylltiad â'r ffilmio. Yn ddieithriad bydd y cwmnïau ffilm neu deledu yn cysylltu yn gyntaf â'r eglwys leol i holi ynglŷn â ffilmio. Mae'n hanfodol fod yr eglwys leol yn ymwybodol o'r defnydd arfaethedig ac yn gefnogol ohono, ond hefyd nad oes dim yn cael ei negodi na'i lofnodi heb ganiatâd Corff y Cynrychiolwyr fel y perchennog.

Mae Corff y Cynrychiolwyr yn trafod cytundebau ffilmio niferus bob blwyddyn ac mae ganddo wybodaeth am amgylchiadau priodol a thelerau gan gynnwys ffioedd. O ganlyniad, dylid cynghori unrhyw gwmni ffilm neu deledu sy'n dymuno ffilmio mewn eglwys neu fynwent eglwys i ddod i gysylltiad â Chorff y Cynrychiolwyr ar unwaith, fel y gellir cytuno ar y telerau ar gyfer cytundeb lleoliad, gan gynnwys ffi. Corff y Cynrychiolwyr sy'n rhoi'r awdurdod i ffilmio ac mae ei Bwyllgor Eiddo wedi rhoi'r hawl i'r Adran Eiddo lofnodi cytundeb priodol gyda'r cwmni.

Dylai'r cwmni ddarparu manylion y cynhyrchiad gan fanylu'n arbennig ar yr olygfa yn yr eiddo dan sylw. Dylid hefyd ddarparu trawsgrifiad o'r olygfa. Dylid ystyried yn ofalus natur y rhaglen a'r cyd-destun y caiff yr eglwys ei phortreadu ynddo, a dylid trafod unrhyw amheuon gyda'r Archddiacon.

Bydd y cytundeb lleoliad yn gofyn i'r cwmni ddarparu yswiriant indemniad, yn cynnwys diogelwch rhag colled ôl-ddilynol, a dylai'r Cyngor Plwyf Eglwysig ystyried unrhyw eitemau o fewn yr eglwys a allai fod angen bod yn rhagofalus yn eu cylch. Dylid rhoi gwybod i yswirwyr yr eglwys fod yr eglwys yn cael ei defnyddio at ddibenion ffilmio.

Rhaid i'r cwmni roi gwybod a fydd unrhyw ddodrefn yn cael eu symud gan y gall hyn fod â goblygiadau hawleb. Dylai unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r angen am hawleb gael eu trafod gyda Chofrestrydd yr Esgobaeth.

Dylai'r cwmni ddarparu manylion unrhyw bropiau y bwriadant eu defnyddio. Yn ogystal dylai roi gwybod a fydd angen unrhyw gyfleusterau e.e. trydan, dŵr etc. Mewn achosion lle mae propiau mawr neu gledrau'n cael eu gosod ar gyfer camerâu, dylid rhoi gwybod i'r cwmni y bydd angen atodlen amod, gyda'r cwmni yn gyfrifol am y gost.

Mae ffioedd trwydded i ffilmio mewn eglwysi neu fynwentydd eglwys yn cael eu penderfynu gan Reoliadau Gwerthiant yr Eglwys ac os yw'r ffi yn llai na £7,500, bydd yn daladwy i Gyngor Eglwysig y Plwyf. Y Pwyllgor Eiddo sydd â'r hawl i benderfynu ar sut y dosberthir unrhyw ffioedd y tu hwnt i'r lefel hon.

Dylid dweud wrth y cwmni fod angen rhybudd o bythefnos ymlaen llaw cyn dechrau ffilmio. Gall rhybudd byrrach na hynny olygu na fydd digon o amser i ymgynghori fel sydd ei angen nac i dderbyn yr awdurdod gan Gorff y Cynrychiolwyr.

Mae darpariaeth wedi'i gwneud yn y cytundeb lleoliad i gynrychiolydd plwyf fod yn bresennol yn ystod y ffilmio ac i wrthwynebu unrhyw beth na chytunwyd arno ymlaen llaw. Gallai hyn fod yn anodd pan fo'r sesiynau ffilmio yn hir ond dylid manteisio ar yr opsiwn pan fo hynny'n bosibl. Gall fod yn briodol i gyfnod y ffilmio gael ei rannu'n sesiynau fel y gall cynrychiolwyr gymryd eu tro.

Dylai unrhyw un sy'n dymuno gwneud ymholiadau ynglŷn â ffilmio mewn eglwysi neu fynwentydd eglwys gysylltu ag Adran Eiddo yr Eglwys yng Nghymru:

Ffôn: 029 2034 8200

E-bost: property@churchinwales.org.uk.

**Alex Glanville**
**Pennaeth y Gwasanaethau Eiddo**
**4 Hydref 2019**